# LEWIS, RICHARD MORRIS (1847 - 1918), ysgolhaig a llenor

**Enw:** Richard Morris Lewis
**Dyddiad geni:** 1847
**Dyddiad marw:** 1918
**Rhiant:** Leisa Lewis
**Rhiant:** John Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolhaig a llenor
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** John Oliver Stephens

Ganwyd 1847 yn Forest Arms, Brechfa, Sir Gaerfyrddin, mab John a Leisa Lewis. Daeth yn brif glerc yn swyddfa'r Inland Revenue yn Abertawe. Bu'n ddiwyd yn cyfieithu emynau i'r iaith Gymraeg (ceir enghreitfftiau yn rhai o'r llyfrau emynau) a darnau, mewn mydr, o ' Iliad ' Homer, ond efallai mai ei waith gorau fel cyfieithydd yw ei drosiad o *Elegy* Gray. Bu farw 20 Medi 1918, a chladdwyd ef ym mynwent Brechfa. Y mae rhai o'i lawysgrifau yn Ll.G.C. (NLW MS. 2249-50).

## Awdur

**Y Parchedig Athro John Oliver Stephens**, (1880 - 1957)

## Ffynonellau


T. Gwynn Jones (gol.), *Iliad Homer Cyfieithiadau gan R. Morris Lewis* (Wrecsam 1928) (Wrecsam, 1928)

*Cymru (O.M.E.)*, Mai 1926, 143

*Yr Efrydydd*, Awst 1933


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 305029528

Wikidata: Q20734298


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu